**Llyr Gruffydd AS/MS**
**Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd**
**Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Emily Blackwell
Cadeirydd
Grŵp Gweithredu'r Gwaharddiad ar Rasio Milgwn

Emily.Blackwell@bristol.ac.uk

2 Medi 2026

Annwyl Dr Blackwell,

Hoffwn ddiolch i aelodau Grŵp Gweithredu'r Gwaharddiad ar Rasio Milgwn am eu hadroddiad cyntaf, sy'n tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed hyd yn hyn. Bydd y canfyddiadau a'r argymhellion yn helpu i lywio Llywodraeth Cymru, cyrff gorfodi, partneriaid yn y trydydd sector a'r diwydiant rasio wrth inni weithredu'r gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru.

Rwyf wedi ymateb i'r argymhellion hynny sydd wedi eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru (sef argymhellion 1, 2, 4, 6 ac 8). Rwyf wedi nodi'r argymhellion eraill.

**Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru ddirwyn rasio i ben yn raddol dros gyfnod o ddeuddeg mis er mwyn hwyluso'r gwaith o ailgartrefu'r milgwn sy'n rasio ar hyn o bryd yn nhrac Valley.

**Ymateb:** Rwy'n cytuno â hyn mewn egwyddor. Dylid sicrhau pontio cyfrifol a than reolaeth.

Mae Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026 ("y Ddeddf") yn darparu cyfnod penodol ar gyfer cyflwyno'r gwaharddiad, sef rhwng Ebrill 2027 ac Ebrill 2030, gan ei gwneud yn bosibl i ddod â'r gwaharddiad i rym ar adeg briodol o fewn y cyfnod hwnnw.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r diwydiant ddirwyn ei weithgareddau i ben, bydd yn cryfhau trefniadau ailgartrefu, bydd yn sicrhau bod cyrff gorfodi wedi paratoi'n llwyr, a bydd yn ein galluogi i ddarparu cymorth priodol i gymunedau lleol wrth i'r newidiadau ddod i rym.

Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi 'cyfnod dirwyn i ben yn raddol' neu 'leihad graddol' mewn rasio ac ni all Llywodraeth Cymru fandadu hyn, ond disgwylir i'r diwydiant reoli hyn mewn modd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Llyr.Gruffydd@llyw.cymru
Correspondence.Llyr.Gruffydd@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyfrifol. Gwelaf fod y Grŵp Gweithredu'n bwriadu gweithio ar y cyd i sicrhau consensws ac argymell dyddiad rhesymol ar gyfer dirwyn rasio i ben yn Stadiwm Milgwn Valley.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Grŵp Gweithredu'n dymuno cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau y telir bond ymddeol Bwrdd Milgwn Prydain Fawr ar gyfer pob milgi a fydd yn ymddeol i sefydliadau ailgartrefu cymwys, nid sefydliadau a gymeradwyir o dan gynllun ymddeol Bwrdd Milgwn Prydain Fawr yn unig.

**Ymateb:** Rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau cymorth lles ac ailgartrefu priodol i filgwn y bydd y gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru yn effeithio arnynt. Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu i gefnogi'r pontio hwn ac i helpu i liniaru effeithiau'r gwaharddiad, gyda lles milgwn yn flaenoriaeth glir.

Mae'r trefniadau mewn perthynas â bond ymddeol Bwrdd Milgwn Prydain Fawr y tu allan i reolaeth uniongyrchol Gweinidogion Cymru. Mae'r cyfrifoldeb dros ddiogelu lles milgwn rasio, yn cynnwys eu hymddeoliad a'r canlyniadau a ddaw i'w rhan ar ôl gorffen rasio, yn gorwedd gyda'r diwydiant a'i reoleiddwyr. O'r herwydd, disgwyliaf y bydd Bwrdd Milgwn Prydain Fawr yn cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau y bydd cymorth ariannol ac ymarferol priodol ar gael i'r holl filgwn a fydd yn ymddeol o ganlyniad i'r gwaharddiad.

Rwy'n parhau'n ymrwymedig i ymgysylltu'n adeiladol â rhanddeiliaid ynglŷn â'r mater hwn. Rwy'n annog Bwrdd Milgwn Prydain Fawr i adolygu gofynion cymhwystra ei Gynllun Ymddeol Milgwn a'r bond ymddeol cysylltiedig, yn cynnwys a ellid ailystyried cyfyngiadau ar rai sefydliadau ailgartrefu er mwyn gallu cynnig cymorth ehangach i filgwn a fydd yn ymddeol.

**Argymhelliad 4**

Dylai sefydliadau ailgartrefu milgwn bennu a mabwysiadu safonau sy'n gydnaws â lles, a dylid rhoi trefniant monitro annibynnol ar waith. Dylid llunio Cylch Gorchwyl a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i hwyluso'r arfer o rannu gwybodaeth, dylid sicrhau y cydweddir â safonau lles, a dylid cefnogi'r sefydliadau perthnasol i gofrestru'n ffurfiol. Argymhellir y dylid gofyn i Trwyddedu Anifeiliaid Cymru fonitro safonau lles, ac y dylai'r sefydliadau ailgartrefu adrodd yn ôl i'r Grŵp yn fisol.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r argymhelliad hwn. Mae gan Trwyddedu Anifeiliaid Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, rôl o ran cynorthwyo awdurdodau lleol i drwyddedu gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid.

Byddwn yn ymgysylltu â Trwyddedu Anifeiliaid Cymru i archwilio'r trefniadau arfaethedig ar gyfer monitro lles. Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i ymestyn rôl Trwyddedu Anifeiliaid Cymru ochr yn ochr â blaenoriaethau presennol.

**Argymhelliad 6**

Dylai'r Grŵp fod yn rhan o unrhyw adolygiad ôl-weithredu a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar y ddeddfwriaeth fel y gellir asesu effeithiolrwydd ac effaith y ddeddfwriaeth, yn cynnwys yr effaith drawsffiniol sy'n gysylltiedig â dirwyn rasio milgwn i ben yng Nghymru.

**Ymateb:** Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiad ar ôl deddfu. Fel y nodir yn Adran 5 y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r modd y gweithredir y Ddeddf, effaith y Ddeddf, a'r modd y cydymffurfir â'r Ddeddf, o fewn tair blynedd i roi'r gwaharddiad ar waith, ynghyd â chyhoeddi adroddiad o'r adolygiad hwnnw mewn modd a ystyrir yn briodol.

Er nad yw cwmpas manwl yr adolygiad wedi'i bennu eto, byddwn yn disgwyl iddo ystyried y modd y gweithiodd y ddeddfwriaeth yn ymarferol, yn cynnwys gweithredu, cydymffurfio, gorfodi, canlyniadau ar gyfer milgwn rasio a goblygiadau trawsffiniol.

Rwy'n cydnabod pa mor werthfawr yw arbenigedd y Grŵp Gweithredu ac rwy'n gwerthfawrogi ei gynnig i gynorthwyo gydag adolygiad o'r fath. Byddwn yn ystyried sut i ymgysylltu ag aelodau'r Grŵp, ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill; efallai y bydd hyn yn golygu ailymgynnull y Grŵp neu ymestyn ei dymor.

**Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo'r unigolion hynny y bydd gwahardd rasio milgwn yn effeithio arnynt trwy eu galluogi i gael gafael ar raglenni cymorth cyflogaeth. Dylai cymorth o'r fath eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol, canllawiau ar gymhwystra, a chymorth ar gyfer llywio trwy'r ddarpariaeth sydd ar gael. Bydd y Grŵp yn cynorthwyo yn hyn o beth trwy helpu i ganfod y bobl hynny y bydd y gwaharddiad yn effeithio arnynt trwy gyfrwng ei gysylltiadau ei hun â'r diwydiant. Byddai mesurau o'r fath yn helpu'r gweithwyr o dan sylw i bontio i gyflogaeth arall, a hefyd byddent yn lleihau effaith economaidd-gymdeithasol y gwaharddiad ac yn cynorthwyo'r farchnad lafur i addasu, gan sicrhau ar yr un pryd y byddai amcanion polisi'r gwaharddiad yn cael eu cyflawni.

**Ymateb:** Rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw cynorthwyo'r unigolion hynny y gallai newidiadau mewn cyflogaeth yn sgil y gwaharddiad effeithio arnynt. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau y bydd cymorth priodol a chymesur ar waith er mwyn helpu unigolion i bontio tuag at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth arall.

Mae rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau a ddarperir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig sylfaen gref ar gyfer y cymorth hwn. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, yn cynnwys Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio, ac yn uniongyrchol gyda Stadiwm Milgwn Valley, i sicrhau y bydd yr unigolion o dan sylw yn cael eu cyfeirio at y cymorth sydd ar gael ac y byddant yn cael eu helpu i gael gafael ar gymorth.

Rwy’n croesawu’r **Camau Nesaf** a nodir yn yr Adroddiad a’r modd mae’r Grŵp yn ystyried amserlen briodol ar gyfer dod â’r gwaharddiad i rym, ochr yn ochr â chamau gweithredu ymarferol. Edrychaf ymlaen at gael rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn eich adroddiad yn yr hydref. Bydd cyngor, arbenigedd ac arweiniad y Grŵp Gweithredu yn amhrisiadwy o ran sicrhau pontio didrafferth, cyfrifol a than reolaeth.

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS/MS**
Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability